

## COLEG BRENHINOL CERDD A DRAMA CYMRU

### POLISI GWEITHREDU SAFONAU'R GYMRAEG

#### Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

## A Cefndir a Rhagymadrodd

### A1 Cyd-destun

Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru yw Conservatoire Cenedlaethol Cymru ac mae'n rhan o Grŵp Prifysgol De Cymru. Mae'n cyfrannu at hunaniaeth ddiwylliannol Caerdydd a Chymru ac yn denu rhai o'r myfyrwyr mwyaf dawnus o bob rhan o'r byd. Mae CBCDC yn rhan o Conservatoires UK.

### A2 Datganiad Gweledigaeth

Ein gweledigaeth yw ysbrydoli a newid bywydau, cysylltu a thrawsnewid cymunedau drwy'r celfyddydau.

### A3 Polisi Iaith Gymraeg

Mae dau ddiben i'r ddogfen hon.

A3.1 Yn gyntaf, mae'n egluro ymateb y Coleg i Safonau'r Gymraeg ar gyfer ei holl randdeiliaid, boed hwy'n fyfyrwyr, staff neu'n aelodau o'r cyhoedd. Yn hyn o beth, mae'n ddogfen gyhoeddus y gellir ei gweld ar wefan CBCDC, neu ar gais.

A3.2 Yn ail, mae'n rhoi ymateb gweithredol i'r Safonau pan fo angen hynny. Cefnogir y dull Polisi hwn gan ddogfennau canllaw pellach, wedi'u hysgrifennu ar gyfer cynulleidfaoedd priodol. Gall y dogfennau hyn gynnwys, yn amodol ar adolygiadau parhaus:

- Gwybodaeth Gyffredinol i Staff
- Canllawiau ar gyfer Rheolwyr Llinell
- Gwybodaeth i Fyfyrwyr
- Gwybodaeth i Ymgeiswyr
- Gwybodaeth i Aelodau'r Cyhoedd

A3.3 Mae'r Polisi Iaith Gymraeg isod wedi'i strwythuro i adlewyrchu adrannau o Hysbysiad Cydymffurfio Safonau'r Gymraeg.

## B Safonau'r Gymraeg

### B1 Safonau Cyflenwi Gwasanaethau (Safonau 1-93)

#### B1.1 Gohebiaeth Ysgrifenedig

Bydd yr holl ohebiaeth (gan gynnwys negeseuon e-bost) a anfonir gan CBCDC yn cynnwys datganiad sy'n dweud y croesewir gohebiaeth yn Gymraeg. Pan dderbynnir gohebiaeth yn Gymraeg, ymatebir iddi yn Gymraeg yn ddi-oed.

Gofynnir i'r myfyrwyr ym mha iaith y byddai orau ganddynt dderbyn gohebiaeth ac anfonir pob gohebiaeth safonol i fyfyrwyr yn ddwyieithog, ac ni fydd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

### **B1.2 Cyfathrebu dros y Ffôn**

Darperir prif wasanaeth ffôn CBCDC yn ddwyieithog, a phan ddefnyddir neges awtomataidd bydd honno hefyd yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg. Hysbysebhir hyn pan fo hynny'n briodol.

Bydd aelodau unigol o staff yn cynnig cyfarchiad Cymraeg, ond os nad ydynt hwy'n siarad Cymraeg byddant yn cynnig trosglwyddo'r alwad i siaradwr Cymraeg, os dyna ddymuniad y sawl sy'n ffonio. Cyn belled a bo hynny'n bosibl, mae'r Coleg yn cynnal ei fusnes yn Gymraeg, ond hysbysir ymholwyr y gallai fod cyfyngiad ar y gallu i wneud hynny pan fydd angen arbenigedd.

Pan wneir cysylltiad gydag aelod o'r cyhoedd am y tro cyntaf, a lle bo digon o arbenigedd ar gael o fewn adran, cynigir cyfathrebu yn Gymraeg.

### **B1.3 Cyfarfodydd**

Fel arfer cynhelir cyfarfodydd CBCDC yn Saesneg, gyda chyfieithu ar y pryd yn cael ei ddarparu yn ôl y galw. Darperir gwasanaeth cyfieithu ar gyfer:

- Cyfarfodydd gydag unigolion, lle bo'r unigolyn wedi nodi ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg;
- Cyfarfodydd gyda grwpiau lle bo o leiaf 10% o'r rheini a wahoddir wedi nodi eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg;
- Cyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd, neu i fyfyrwyr o garfan benodol.

Bydd CBCDC yn gofyn i gynadleddwyr nodi eu dewis iaith pan anfonir gwahoddiadau, a fydd yn ddwyieithog.

Ni chaiff digwyddiadau *nad* ydynt yn agored i'r cyhoedd, yn cynnwys Diwrnodau Agored, Diwrnodau Clyweliadau, Arddangosfeydd Preifat a Seremonïau Gwobrwyo eu hystyried yn gyfarfodydd o dan delerau'r Safonau. Fodd bynnag, gan gyfeirio'n benodol at Ddiwrnodau Agored, anfonir gwahoddiadau yn ddwyieithog ynghyd â'r cyfle i fynegi dewis iaith. Pan fo o leiaf 10% o'r rheini sy'n mynychu yn nodi eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, darperir gwasanaeth cyfieithu.

### **B1.4 Deunydd Cyhoeddusrwydd a Digwyddiadau**

Mae CBCDC yn cynhyrchu pob deunydd cyhoeddusrwydd ar gyfer perfformiadau a digwyddiadau CBCDC yn Gymraeg a Saesneg, yn cynnwys y cyhoeddiad 'Rhaglen/What's On'. Mae CBCDC hefyd yn cynhyrchu rhaglenni ysgrifenedig ar gyfer ei berfformiadau ei hun yn ddwyieithog.

Mae CBCDC yn annog pob cwmni ac artist ar ymweliad i ddarparu deunydd cyhoeddusrwydd yn ddwyieithog, ond ni fydd y Coleg ei hun yn gyfrifol am ddeunydd o'r fath na'i gostau.

Mae CBCDC yn annog myfyrwyr sy'n cynhyrchu deunydd cyhoeddusrwydd ar gyfer perfformiadau a digwyddiadau y maent yn eu hyrwyddo eu hunain i wneud hynny'n ddwyieithog, ac yn cynnig cyngor a chanllawiau ar wneud hynny yn gywir ac effeithiol. Rhaid i gyhoeddusrwydd a gynhyrchir gan fyfyrwyr fod yn ddwyieithog er mwyn cael ei arddangos mewn ardaloedd o'r Coleg sy'n agored i'r cyhoedd.

### **B1.5 Dogfennau a Ffurflenni**

Mae CBCDC yn cyhoeddi ei holl ddogfennau a pholisïau ar gyfer myfyrwyr a'r cyhoedd yn ddwyieithog.

Cynhyrchir pob ffurflen yn ddwyieithog, yn cynnwys y rheini a ddsberthir ac a lenwir ar-lein, ac ni fydd gwahaniaeth rhwng fersiynau Cymraeg a Saesneg unrhyw ffurflen.

### **B1.6 Gwefan a Chyfryngau Cymdeithasol**

Mae CBCDC yn darparu Gwefan a Mewnrwyd cwbl ddwyieithog.

Cynhelir cyfrifon Cyfryngau Cymdeithasol corfforaethol y Coleg yn ddwyieithog.

### **B1.7 Arwyddion**

Mae pob arwydd parhaol a dros dro yn ddwyieithog, ac mae'r Gymraeg wedi'i lleoli yn y fath fodd fel y bydd yn debygol o gael ei darllen gyntaf.

Caiff yr arwyddion presennol eu disodli ar sail barhaus, yn unol â'r uchod, gan fod yn ymwybodol o Hunaniaeth Gorfforaethol (gweler isod).

### **B1.8 Gwasanaethau Dderbynfa a Hysbysïadau Cyhoeddus**

Darperir Gwasanaeth Prif Dderbynfa'r Coleg yn Gymraeg a Saesneg.

Mae Hysbysïadau Cyhoeddus yn cael eu gwneud yn Gymraeg a Saesneg.

### **B1.9 Grantiau a Chymorth Ariannol**

Gellir gwneud ceisiadau am Grantiau a Chymorth Ariannol yn Gymraeg, ac ni chaiff cais yn Gymraeg ei drin yn llai ffafriol nag un a wneir yn Saesneg. Gwahoddir ymgeisydd i gyfeirio at unrhyw berthnasedd rhwng y cais a'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

### **B1.10 Tendrau ar gyfer Contractau**

Cyhoeddir gwahoddiadau i dendro am gontract yn Gymraeg pan fo testun y gwahoddiad, neu'r gynulleidfa a ragwelir, yn awgrymu y dylai gael ei gyhoeddi yn Gymraeg.

Mae gwahoddiadau i dendro yn cynnwys datganiad sy'n ei gwneud hi'n glir na fydd tendr a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol nag un Saesneg.

### **B1.11 Hunaniaeth Gorfforaethol, Cyhoeddusrwydd a Hyrwyddo**

Mae Hunaniaeth Gorfforaethol CBCDC yn rhoi ystyriaeth gyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg, a bydd yn parhau i wneud hynny. Ni fydd deunydd cyhoeddusrwydd a hyrwyddo Conservatoire Cenedlaethol Cymru yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

### **B1.12 Cyfleoedd Dysgu, darpariaeth arall a gwaith myfyrwyr yn Gymraeg**

Iaith cyflenwi ar gyfer holl fyfyrwyr llawn amser, rhan amser a chyswllt CBCDC yw Saesneg, yn unol â phrosesau cymeradwyo a dilysu cyrsiau.

Er hyn, gellir cyflwyno elfennau o ddarpariaeth yn Gymraeg pan fo'r tiwtor a'r myfyriwr yn siaradwyr Cymraeg, gan gynnwys hyfforddiant offerynnol neu lais unigol, goruchwyliaeth traethawd hir a gweithgarwch tiwtorial academiaidd arall. O bryd i'w gilydd efallai y bydd y Coleg

hefyd yn comisiynu gweithgaredd perfformio yn Gymraeg a, thrwy hyn, yn darparu cyfleoedd dysgu pellach i fyfyrwyr yn Gymraeg.

Er y darpariaethau uchod, mae gan fyfyrwyr yr hawl i wneud y canlynol:

- Cyflwyno gwaith ysgrifenedig yn Gymraeg;
- Gwneud cais am Diwtor personol sy'n siarad Cymraeg (ar gyfer cefnogaeth diwtorial anacademaidd);
- Gwneud cais am Wasanaeth Cefnogi Myfyrwyr yn Gymraeg

Ni chaiff myfyrwyr sy'n gwneud ceisiadau o'r fath eu trin yn llai ffafriol na'r rheini sy'n gwneud hynny drwy gyfrwng y Saesneg.

### **B1.13 Llety Myfyrwyr**

Gwahoddir myfyrwyr sy'n gwneud cais am lety a weinyddir gan y Coleg yn Unite Severn Point i fynegi dewis am lety gyda siaradwyr Cymraeg eraill.

## **B2 Safonau Llundio Polisi (Safonau 94-104)**

### **B2.1 Llundio a Diwygio Polisi**

Bydd CBCDC, wrth lunio polisiâu newydd neu ddiwygio rhai sy'n bodoli'n barod, yn rhoi sylw dyledus i'r safonau perthnasol ac mae'n ystyried effeithiau polisiâu ar gyfer gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg gan gofio na fydd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Mae hyn yn berthnasol i'r effeithiau y gallai penderfyniadau polisi eu cael, boed yn bositif neu'n andwyol, a chedwir cofnod o'r ystyriaethau. Er mwyn hwyluso hyn bydd Pwyllgorau sefydlog y Coleg yn cynnwys y Gymraeg mewn trafodaethau a phenderfyniadau fel y bo'n briodol, a bydd proses Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb sy'n ofynnol ar gyfer penderfyniadau polisi yn cynnwys adran gynhwysfawr ar y Gymraeg.

### **B2.2 Cyhoeddi Dogfennau Ymgynghori a Chomisiynu Ymchwil**

Pan fydd CBCDC yn cyhoeddi dogfennau ymgynghori a/neu'n comisiynu ymchwil sydd wedi'i fwriadu i hysbysu neu gynorthwyo wrth wneud penderfyniadau polisi, bydd yr ymgynghoriad a/neu'r ymchwil yn ystyried yr effeithiau y byddai'r penderfyniad polisi dan ystyriaeth yn ei gael ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

### **B2.3 Polisi ar Ddyfarnu Grantiau neu Gymorth Ariannol**

Bydd CBCDC yn cyhoeddi polisi ar ddyfarnu grantiau neu ddarparu cymorth ariannol, sy'n rhoi ystyriaeth i ddyfarniad grant neu gymorth ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, ac nad sy'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Bydd y polisi hefyd yn rhoi ystyriaeth i sut y gallai'r penderfyniad a wneir effeithio ar y materion hyn, a hefyd a fydd efallai angen rhagor o wybodaeth gan ymgeiswyr er mwyn asesu'r dyfarniad neu'r cymorth, gan fod yn ymwybodol o'r materion hyn.

### **B2.4 Datblygu a Diwygio Cyrsiau a Modiwlau**

Mae CBCDC yn datblygu darpariaeth yn y Coleg ac mewn partneriaeth â Phrifysgol De Cymru, y sefydliad sy'n dyfarnu ei raddau. Bydd camau ffurfiol datblygu, adolygu, cymeradwyo a dilysu cyrsiau a modiwlau yn ystyried yr effeithiau y mae'r materion hynny yn eu cael ar gyfleoedd i ddefnyddio'r

Gymraeg, boed yn rhai positif neu andwyol. Mae'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb sy'n ofynnol ar gyfer datblygu cyrsiau yn cynnwys adran gynhwysfawr ar y Gymraeg.

### **B3 Safonau Gweithredu (Safonau 105-153)**

#### **B3.1 Hyrwyddo'r Gymraeg**

Mae CBCDC wedi cyhoeddi polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol at ddiben hyrwyddo a hwyluso defnydd yr iaith.

#### **B3.2 Rheoli Adnoddau Dynol**

Mae CBCDC yn defnyddio Prifysgol De Cymru a'i Hadran Adnoddau Dynol ar gyfer pob agwedd ar Reoli Adnoddau Dynol. Wrth gydymffurfio â gofynion y Safonau, mae CBCDC yn cyfeirio bob amser at ddull cydymffurfio Prifysgol De Cymru a, lle bo hynny'n briodol, mae'n cyfrannu at drafodaethau'n ymwneud â llunio, adolygu a gweithredu polisi.

#### **B3.3 Meddalwedd Cyfrifiadurol**

Mae CBCDC yn darparu meddalwedd ar gyfer gwirio gramadeg a sillafu Cymraeg a rhyngwynebau Cymraeg (pan fo'r rhain yn bodoli) i'r holl staff a myfyrwyr sy'n defnyddio cyfrifiaduron sydd wedi'u rhwydweithio.

#### **B3.4 Mewnwyd**

Mae'r Coleg yn darparu ei fewnwyd, 'Yr Hyb,' yn Gymraeg a Saesneg. Mae tudalennau Saesneg yn cyfeirio at eu tudalennau cyfatebol yn Gymraeg (a'r Gymraeg yn cyfeirio at y Saesneg) ac mae tudalennau yn y ddwy iaith yn gwbl weithredol.

Darperir tudalennau dewislen yn Gymraeg a Saesneg a byddant yn rhoi dolen i wasanaeth penodol a deunydd cefnogi i hyrwyddo'r Gymraeg ac i gynorthwyo staff a myfyrwyr i ddefnyddio'r Gymraeg.

#### **B3.5 Hyfforddiant a Datblygiad**

Mae CBCDC yn asesu sgiliau Cymraeg ei staff, ac yn rhoi cyfle yn ystod oriau gwaith i staff dderbyn gwersi Cymraeg sylfaenol neu i ddatblygu ymhellach eu sgiliau ieithyddol.

Mae CBCDC yn darparu (naill ai'n uniongyrchol neu mewn partneriaeth â Phrifysgol De Cymru) hyfforddiant yn Gymraeg ar ddefnyddio'r Gymraeg yn effeithiol yn y gweithle, ac mae sesiynau ymsefydlu staff newydd yn cynnwys cyfeiriadau penodol at y Gymraeg, ei hanes, ei lle o fewn diwylliant Cymru a'i lle o fewn CBCDC.

Mae CBCDC yn darparu modd i'r rheini sy'n dymuno dysgu Cymraeg neu wella eu sgiliau presennol i wneud hynny yng nghyd-destun eu gwaith.

#### **B3.6 Recriwtio (AD)**

Mae CBCDC yn contractio ei wasanaethau Rheoli Adnoddau Dynol i Brifysgol De Cymru. Drwy ddeialog gyda'r Brifysgol (sy'n dilyn union yr un Safonau yn hyn o beth) mae CBCDC yn darparu ac yn monitro pob agwedd ar Recriwtio, Manylebau Swyddi, Cyfweliadau, Sesiynau Ymsefydlu, Datblygiad Proffesiynol Parhaus a Gweithdrefnau Disgyblu Staff.

### **B3.7 Gwybodaeth Gyhoeddus – Arwyddion a Chyhoeddiadau**

Bydd CBCDC yn sicrhau bod pob arwydd a osodir o'r newydd yn ddwyieithog, ac ni fydd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Bydd pob cyhoeddiad Blaen Tŷ (cyffredinol i'r cyhoedd) yn ddwyieithog.

### **B4 Safonau Cadw Cofnodion (Safonau 154-162)**

Mae CBCDC yn cadw'r cofnodion canlynol parthed cydymffurfio â'r Safonau.

- Nifer a natur y cwynion a dderbynnir, copïau ysgrifenedig ac ymatebion;
- Copi o unrhyw gŵyn sy'n ymwneud â'r Gymraeg (boed yn ymwneud â safonau penodol ai peidio);
- Y camau a gymerir er mwyn sicrhau cydymffurfiad â'r Safonau;
- Canlyniadau asesiad sgiliau Cymraeg cyflogeion;
- Nifer y staff sydd wedi mynychu cyrsiau hyfforddiant Cymraeg;
- Yr asesiad a wnaed parthed sgiliau Cymraeg y gallai fod eu hangen mewn perthynas â swydd newydd neu swydd wag; a
- Nifer y swyddi newydd sydd wedi'u categorio fel swydd y mae'r Gymraeg yn hanfodol, angen ei dysgu, yn ddymunol neu ddim yn angenrheidiol.

Other records may also be kept, and included within reports, as identified by the College, from time to time.

### **B5 Materion Atodol (Safonau 163-182)**

#### **B5.1 Dogfennau, Polisiâu a Chyhoeddiadau**

Mae CBCDC yn cyhoeddi'r dogfennau, polisiâu a'r gweithdrefnau sydd eu hangen er mwyn cydymffurfio â'r Safonau hyn. Bydd y rhain yn cynnwys, ond heb eu cyfyngu i:

- Hysbysiad Cydymffurfio CBCDC
- Polisi Gweithredu Safonau'r Gymraeg CBCDC
- Gweithdrefn Cwynion

#### **B5.2 Adroddiad Blynyddol a Cheisiadau am Wybodaeth**

Mae CBCDC yn ysgrifennu ac yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol dwyieithog sy'n ymdrin â'r modd y mae wedi cydymffurfio â phob agwedd ar Safonau'r Gymraeg yn ystod y Cyfnod Adrodd. Caiff yr Adroddiad ei hysbysebu a'i gyhoeddi ar y wefan ac mae ar gael ar gais.

Mae CBCDC hefyd yn ystyried ceisiadau am wybodaeth ar wahân i'r Adroddiad Blynyddol, lle nad yw gwybodaeth o'r fath fel arfer wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, ceisiadau am wybodaeth ynglŷn â chadw cofnodion, neu agweddau eraill ar gydymffurfio.

## **C Trefniadau ar gyfer Goruchwylio Safonau'r Gymraeg**

### **C1 Cyfrifoldeb**

Yr Uwch Dîm Rheoli sy'n gyfrifol am Oruchwylio Safonau'r Gymraeg ac maent wedi dirprwyo goruchwyliaeth barhaus i Grŵp Llywio'r Gymraeg. Mae'r grŵp hwn, sy'n cynnwys y Cyfarwyddwr Cyllid a Gweithrediadau, y Cyfarwyddwr Materion Allanol, y Rheolwr Technoleg Marchnata a Phennaeth y Gwasanaethau Academaidd, yn cwrdd bedair gwaith bob blwyddyn ac yn adrodd yn uniongyrchol i'r Uwch Dîm Rheoli.

### **C2 Monitro a Chydymffurfiaeth**

Mae aelodau'r Grŵp Llywio yn cydlynu cydymffurfiaeth a monitro yn eu priod feysydd cyfrifoldeb:

- Cyfarwyddwr Cyllid a Gweithrediadau – o ran Cyllid, Rheoli Adnoddau Dynol ac Ystadau
- Cyfarwyddwr Materion Allanol – o ran cyfathrebu mewnol ac allanol
- Rheolwr Technoleg Marchnata – o ran y Wefan, Mewnwyd a'r Cyfryngau Cymdeithasol
- Pennaeth Gwasanaethau Academaidd – o ran gweinyddiaeth sy'n wynebu myfyrwyr.

Mae'r Grŵp Llywio hefyd yn gyfrifol am gydymffurfio ym meysydd hyrwyddo a hwyluso yn eu priod feysydd.

### **C3 Adrodd**

Mae Grŵp Llywio'r Gymraeg yn cynhyrchu, yn cyflwyno ac yn cyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol, ac yn cydlynu ymateb i geisiadau eraill am wybodaeth fel sy'n briodol.